



# Bwletin GwE

CYDWEITHIO  
DYSGU  
LLWYDDO

## Y RHIFYN OLAF [308]



Wedi 10 mlynedd a 307 o rifynau o Fwletin GwE, dyma fydd y rhifyn olaf. Wrth i'r gwasanaeth ddirwyn i ben, roeddem eisiau cymryd munud i feddwl am ein taith ers sefydlu GwE yn 2013. Mae'r bwletin wedi bod yn gyfrwng allweddol i rannu gwybodaeth am gyfleoedd Dysgu Proffesiynol, cefnogi ymarferwyr ac annog cydweithio ar draws y rhanbarth.

Wrth i ddyddiad gorffen y gwasanaeth agosáu, roeddem ni eisiau diolch o waelod calon i chi am eich holl ymddiriedaeth, cydweithrediad a chefnogaeth dros y blynyddoedd.

Ar ran y tîm i gyd yn GwE, rydym yn diolch yn ddiffuant i chi am eich cyfraniadau a'ch cyfeillgarwch yn ystod ein taith gyda'n gilydd fel gwasanaeth rhanbarthol.

## NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

## LLWYBR DYSGU I GYMORTHYDDION ADDYSGU / LIDGA

### Rhaglen Darpar CALU - Cylch 11



#### MAE CEISIADAU AR GYFER Y RHAGLEN DARPAR CALU CYLCH 11 AR AGOR

Nod y rhaglen Darpar CALU yw cefnogi Cynorthwywyr Addysgu profiadol sy'n dymuno datblygu eu sgiliau ymhellach a pharatoi ar gyfer Asesiad statws CALU. Mae'n rhaglen ag iddi bedwar Modiwl, dros ddau dymor.

Bydd y rhaglen yn cael ei chynnal rhwng mis **Medi 2025** a **Mawrth 2026** [un diwrnod pob hanner tymor].

**DYDDIAD CAU:** 11/07/2025 | **FFURFLEN GAIS:** <https://bit.ly/3QUH1qw> | Mwy o wybodaeth ar gael gan [Wendy Williams](#).

### Cyfle cyffrous i Gynorthwywyr Addysgu newydd!

Mae'r Rhaglen Ymsefydlu i Gynorthwywyr Addysgu i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd.

Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus iddyn nhw ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion sut i gofrestru, [cliciwch yma](#).



Bryn Eirias, Ffordd Abergele,  
Bae Colwyn, LL29 8BY



0300 500 8087



Canolfan Cefnogaeth GwE



@GwEGogleddCymru



post@gwegogledd.cymru



www.gwegogledd.cymru



Cynnig Proffesiynol GwE



Bwletin GwE



## Y GYMRAEG

## Cyrsiau Sabothol Iaith Gymraeg

CWRS LEFEL MYNEDIAD I GYNORTHWYWYR DOSBARTH MEWN YSGOLION CYNRADD CYFRWNG SAESNEG

[Cwrs 5 wythnos wyneb yn wyneb yn y Ganolfan Iaith yn Llanelwy: 02/06/2025 – 04/07/2025](#)

## DYFODOL BYD-EANG: IEITHOEDD RHYNGWLADOL

Newyddlen Ieithoedd Rhyngwladol GwE:

[CYNRADD](#) | [UWCHRADD](#)